

NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA 2016

GAN IEUENCTID CYMRU I IEUENCTID Y BYD.

DEWIS A CHYDWYBOD

Does 'na ddim cyfarwyddiadau gennym ni ar sut i adeiladu heddwch, ond dyma beth rydym ni'n ei gredu yw'r sylfeini:

- Heddwch yw dangos parch.
- Heddwch yw teimlo'n ddiogel.
- Heddwch yw undod.
- Heddwch yw...
- Dewis di.

Gan mlynedd yn ôl, yn y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd dynion rhwng 18 a 41 oed yn cael eu gorfodi i ymuno â'r fyddin.

"Does gen ti ddim dewis!"

Ond roedd cydwybod rhai yn dweud wrthynt bod ymladd yn anghywir. Felly mi wnaethon nhw greu dewis iddynt eu hunain. Gwrthwynebu.

Roedd hon yn frwydr ynddi ei hun, ond roedden nhw'n credu mewn heddwch ac yn dewis heddwch. Doedd o ddim yn ddewis hawdd ond roedd o'n ddewis dewr.

Heddiw, mae angen i ni fod yn ddewr, a gwrando ar ein cydwybod.

Wrth adeiladu wal mae pob bricsen yn cyfrif ac wrth adeiladu heddwch mae pob dewis yn cyfrif.

Felly...

- ...rydyn ni'n dewis dangos parch.
- ...rydyn ni'n dewis helpu eraill.
- ...rydyn ni'n dewis cymryd cyfrifoldeb.
- ...rydyn ni'n dewis derbyn eraill fel ag y mae'n nhw.

Wyt ti am gyd-adeiladu efo ni?

Lluniwyd gan ddisgyblion Ysgol Uwchradd Maes Garmon, Yr Wyddgrug